

Tribiwnlys Anghenion
Addysgol Arbennig Cymru



Special Educational
Needs Tribunal for Wales

Canllaw are wneud cais am ganiatâd i apelio i'r Uwch Dribiwnlys

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. Cysylltwch â'r tribiwnlys am fersiwn Saesneg o'r ddogfen hon.

Dewis iaith

Mae'r tribiwnlys yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Mae'r tribiwnlys hefyd yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg neu'n Saesneg.

Gallwch chi gyflwyno ffurflenni, dogfennau a chyflwyno sylwadau ysgrifenedig i'r Tribiwnlys yn Gymraeg neu'n Saesneg.

Ar ôl cael penderfyniad gan Dribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru (TAAAC), os ydych chi'n credu ei fod yn anghywir o safbwynt y gyfraith, gallwch apelio i Siambwr Apeliadau Gweinyddol yr Uwch Dribiwnlys. Cyn gwneud apêl i'r Uwch Dribiwnlys, mae'n rhaid i chi yn gyntaf wneud cais i TAAAC am ganiatâd i apelio i'r Uwch Dribiwnlys.

1. Pwy sy'n gallu gwneud cais?

Gallwch wneud cais os ydych chi wedi bod yn barti mewn apêl neu hawliad a benderfynwyd gan TAAAC. Mae hyn yn cynnwys rhiant, neu rywun sydd â chyfrifoldeb rhiant, awdurdod lleol neu gorff cyfrifol ysgol.

2. Pa geisiadau ydw i'n gallu eu gwneud?

Gallwch wneud cais i TAAAC am **ganiatâd i apelio** yn erbyn penderfyniad os ydych chi'n credu ei fod yn anghywir **o safbwynt y gyfraith**. Dyma rai enghreifftiau o sut gallai'r Tribiwnlys fod yn anghywir o safbwynt y gyfraith:

- Nid oedd y Tribiwnlys wedi defnyddio'r gyfraith gywir neu roedd wedi dehongli'r gyfraith yn anghywir;
- roedd y Tribiwnlys wedi gwneud gwall trefniadol;
- nid oedd gan y Tribiwnlys unrhyw dystiolaeth, neu nid oedd ganddo ddigon o dystiolaeth, i ategu ei benderfyniad;
- nid oedd y Tribiwnlys wedi rhoi rhesymau digonol i ategu ei benderfyniad.

Dim ond enghreifftiau yw'r rhain a gall penderfyniad y Tribiwnlys fod yn anghywir o safbwynt y gyfraith am ryw reswm arall nad ydym wedi'i grybwyll yma.

3. Pryd gai'i wneud cais?

Rhaid gwneud cais mewn da bryd i sicrhau ei fod yn nwylo TAAAC cyn pen 28 diwrnod ar y mwyaf ar ôl y dyddiad yr oedd TAAAC wedi anfon ei benderfyniad.

Gallwch wneud cais ar ôl i chi dderbyn:

- Penderfyniad gan y Tribiwnlys;
- penderfyniad wedi'i ddiwygio/ei amrywio yn sgil adolygiad gan y Tribiwnlys; neu
- hysbysiad fod y cais am adolygu'r penderfyniad wedi bod yn aflwyddiannus (cyn belled ag yr oedd y cais wedi cael ei wneud mewn pryd).

4. Sut mae gwneud cais am ganiatâd i apelio?

Rhaid i gais am ganiatâd i apelio i'r Uwch Dribiwnlys fod yn gais ysgrifenedig. Gallwch ddefnyddio'r ffurflen, **Cais i TAAAC am Ganiatâd i Apelio i'r Uwch Dribiwnlys** (TAAAC

21). Rhaid i'ch cais am ganiatâd i apelio fod yn swyddfeydd TAAAC cyn pen 28 diwrnod ar ôl y dyddiad yr oedd TAAAC wedi anfon ei benderfyniad atoch.

Mae'n rhaid i'r cais:

- a) nodi'r penderfyniad y mae'n ymwneud ag ef;
- b) nodi'r gwall neu'r gwallau cyfreithiol honedig yn y penderfyniad;
- c) nodi'r canlyniad rydych am ei gael.

5. Beth sy'n digwydd nesaf?

Os bydd eich cais yn cyrraedd mewn pryd, byddwn yn ysgrifennu atoch i ddweud ein bod yn delio â'ch cais.

Bydd TAAAC yn penderfynu a ydyw am adolygu ei benderfyniad (oni bai fod y penderfyniad eisoes wedi cael ei adolygu neu os oes penderfyniad wedi'i wneud o'r blaen i beidio â'i adolygu).

Os bydd TAAAC yn penderfynu adolygu ei benderfyniad, byddwn yn ysgrifennu at y ddau barti i ofyn am sylwadau.

Os bydd TAAAC yn penderfynu peidio ag adolygu ei benderfyniad, bydd yn ystyried a yw am roi caniatâd i apelio i'r Uwch Dribiwnlys.

Os bydd y Tribiwnlys yn rhoi caniatâd i apelio, bydd angen i chi lenwi Hysbysiad o Apêl i'r Uwch Dribiwnlys. Bydd hwn yn cael ei anfon atoch gyda phenderfyniad y Tribiwnlys. Mae'n rhaid i chi anfon yr Hysbysiad o Apêl i'r Uwch Dribiwnlys cyn pen un mis fan bellaf ar ôl y dyddiad y mae'r Tribiwnlys wedi anfon ei benderfyniad atoch.

Os nad ydy TAAAC yn rhoi caniatâd i chi apelio, gallwch ofyn i'r Uwch Dribiwnlys am ganiatâd i apelio. Bydd gwybodaeth am wneud cais i'r Uwch Dribiwnlys yn cael ei anfon atoch gyda phenderfyniad TAAAC ynghylch eich cais. Os ydych chi'n gwneud cais i'r Uwch Dribiwnlys am ganiatâd i apelio, mae'n rhaid i chi wneud hynny cyn pen **un mis** fan bellaf ar ôl y dyddiad y mae TAAAC yn anfon ei benderfyniad atoch.